

Cofion a Chyfarchion

- Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf heddiw â Beryl Davies (Cefn Berain) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer ddechrau'r wythnos. Gweddiwn y byddant oll yn adnabod cysur cwmni Duw a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Yr ydym yn parhau i gofio yn ein gweddiâu am y rhai sydd mewn anhwylder y dyddiau hyn gan eu cyflwyno'n dyner i ofal yr Arglwydd. Mae Nia Clwyd Dolben Roberts (Cefn Berain), Kitty Parry a Morfudd Roberts (Llanefydd); a Heddwyn Davies (Llansannan) wedi bod yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyd yr wythnos, fel ag y mae Elizabeth Hughes (Llansannan) yn Ysbyty Bae Colwyn a Glenys Jones (Llanefydd) yn Ysbyty Rhuthun. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd, gan hyderu y byddant yn cael eu diogelu a'u cadw'r dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Gwenfyl Jones (Yr Hen Ficerdy); a Mrs Menna Owen, Miss W J Roberts a Mr Selwyn Davies (Yr Hen Ddeondy).
- Llongyfarchiadau a phob bendith i Rhian Evans sydd wedi cael ei dewis i wasanaethu fel blaenores yng Nghapel Henllan. Diolchwn i Dduw amdani a bydded Ei fendith ar yr eglwys. Bydd oedfa gyhoeddus i ordeinio a llongyfarch blaenoriaid yng Nghapel Bethania, Rhuthun ar Orffennaf 4ydd am 7.00.
- Llongyfarchiadau i Helen a Rhys Edmunds (Nantglyn) ar enedigaeth mab, Gwilym Arthur, brawd bach i Twm. Llongyfarchiadau hefyd i Teresa Jones (Llansannan) a Karl Brown ar eu dyweddiad.

Cadarnhâd!

Achos llawenydd (a thristwch!), a balchder oedd cael y newyddion fod Rhodri wedi derbyn cadarnhad o'i le yng Ngholeg Oakhill, Llundain i ddilyn Cwrs Meistr mewn Diwinyddiaeth ac y bydd y tymor yn cychwyn ar Fedi'r 7ed. Parhawn i weddio drosto a Gwenno a'r teulu i gyd wrth iddynt baratoi ar gyfer y cyfnod newydd yma, ac edrychwn ymlaen i'w croesawu yn ôl ym Medi 2016.

Bws Mini i Sasiwn Chwiorydd y Gogledd

Bydd bws mini 'Cart y Plwyf' yn mynd â chriw o'r Fro i'r Sasiwn yn Llandudno ar ddydd Mercher, Mai 12fed. Os oes rhywun â diddordeb i deithio ar y bws, mae lle i 5 arall. Cysylltwch â Llinos Rees (01745) 550261, os gwelwch yn dda.

I ddod

- **UNDEB ATHROFA'R BALA** – Cynhelir y Gynhadledd Flynyddol yn Seilo, Llandudno dydd Mawrth, Mai 5ed am 10.00. Pwnc: "Cymorth i Farw".
- **SASIWN CHWIORYDD Y GOGLEDD** yng Nghapel Seilo, Llandudno (LL30 2DY) dydd Mawrth, Mai 12fed. Disgwylir y Parch. Casi Jones, Clynnog i annerch am 2.00 a Delyth Wyn Davies, Chwilog am 5.30. Croeso cynnes i bawb.
- **SASIWN PLANT** (Groes, Henllan, Nantglyn, Peniel a Saron) ym Mheniel ar Fai 17eg am 2.00. Yr arweinydd fydd Mrs Mair Beech Williams.



Llais Bro Aled

Dydd Sul, 3^{ydd} Mai 2015

Darlleniad y Dydd

Ioan 21:15-17

(BCND tud.127 / BCN: tud.117)

www.eglwysibroaled.com / www.rhaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da, a chroeso i oedfaon y dydd ac i ddiwrnod newydd o ras! Addewid o newid sydd o'n blaenau'r wythnos hon oherwydd mae hon yn wythnos yr Etholiad Gyffredinol! Rydan ni'n siŵr o gael newid, ond sut fath o newid fydd o tybed? Er gwell, er gwaeth? Mae'r sylwebyddion yn ceisio'n perswadio mai hon fydd y 'lecsiwn bwysicaf ers cenhedlaeth ac ambell i un arall yn dweud na fydd llawer o newid sut bynnag y bydd hi o ddydd Gwener ymlaen!

Yn y darlleniad heddiw rydan ni'n cael hanes newid gwirioneddol fawr. Newid mewnol yng nghalon Simon Pedr. Ar sail cyffes Pedr ynghynt yn ei fywyd y mae'r Eglwys yn cael ei chodi, ei hadeiladu a'i diogelu. Ateb i gwestiwn Iesu 'Pwy meddwch chi ydwyf fi?' oedd ei gyffes, sef 'Ti yw'r Meseia, mab y Duw byw.' (Mathew 16: 13-20) Dyma'r gyffes sydd wedi newid y byd oherwydd ei bod hi'n rym yng nghalon pob Cristion ym mhob man yn y byd ac ym mhob oes. Y gyffes hon yn y galon a'r genau sy'n arwain i iachawdwriaeth ac i erledigaeth hefyd fel y gŵyr llawer iawn heddiw. (Rhufeiniaid 10:9)

Ond os oedd Pedr wedi cyffesu hyn ynghynt, pam fod angen y cadarnhâd pellach yma gan Iesu fel sy'n cael ei gofnodi yn y darlleniad? Y rheswm amlwg ydi fod Pedr, yn y cyfamser, wedi defnyddio'i dafod – yr un dafod - i gyffesu nad oedd yn adnabod Iesu o gwbl. Roedd y ceiliog wedi canu wrth iddo wadu Iesu deirgwaith. Felly roedd angen i Iesu adfer hyder Pedr eto trwy rwymo ei galon ar gyfer y gwaith mawr a oedd o'i flaen. Dull Iesu ydi gofyn iddo deirgwaith "A wyt ti yn fy ngharu i?" Ddwywaith y mae'n cael ateb cadarnhaol. A'r drydedd waith mae calon Pedr yn ildio ac mae'n dweud "Arglwydd, fe wyddost ti pob peth, ac rwyt ti'n gwybod fy mod yn dy garu di."

Mater o gariad oedd y berthynas. Ar sail cyffes yn y genau a chariad yn y galon tuag at Iesu y mae'r eglwys yn cael ei hadeiladu. Roedd Iesu yn ei gariad tuag at Pedr yn ei adfer i berthynas o gariad ac ymroddiad. Trwy roi balm ei gariad yng nghalon Pedr, y mae'n cryfhau ymgysgriad Pedr o'r newydd.

Mor drugarog yw yr Arglwydd! Ar sail y newid yma yng nghalon Pedr y mae Iesu yn rhoi gwaith o'r newydd iddo – porthi ei wŷn, bugeilio ei ddefaid, porthi ei ddefaid. Trwy garu Crist y mae Pedr yn mynd rhagddo hyd angau i rannu'r Efengyl ac i weld Duw, trwy'r Ysbryd Glân yn newid y byd! Cariad, nid 'politics', sy'n newid y byd yn y pen draw!

DILYNWCH NI: @eglwysibroaled

Aneurin

Darlleniad Wythnos Nesaf

Genesis 9:8-17 (BCND tud.7 / BCN: tud.7)

Cyhoeddiadau

Y Fro

Sul yma – 3^{ydd}

- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Dafydd Timothy, a bydd Rhodri yn pregethu.
- **Cyfarfod Gweddî'r Fro** yn Groes am 7.30.
- **Adnabod Addoli** yn Ffestri Llansannan am 8.00.
- **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Bydd **Henaduriaeth Dyffryn Clwyd** yn cyfarfod yng Nghapel y Dyffryn, Llandyrnog. Gwaith yr Henaduriaeth am 4.30, a Chyfarfod Cyhoeddus am 6.00 i werthfawrogi gwaith plant ac oedolion yr Ysgol Sul. SYLWCH: [Ni fydd y Pwyllgor Gwaith yn cyfarfod.](#)
- **C.I.C.** (Clwb Ieuenctid Cristnogol) ar gyfer pobl ifanc oed uwchradd yn Llansannan rhwng 7.30 a 9.15.
- **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, a bydd Aneurin yn pregethu.

Sul nesaf – 10^{fed}

Llanfair a Chefn Meiriadog

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Llanfair am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghefn Meiriadog am 2.00.

Sul nesaf – 10^{fed}

Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yng Nghefn Meiriadog am 10.30 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa Cymorth Cristnogol yno am 2.00.

Llansannan

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Bydd Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.

Iau – 7^{fed}

Cinio'r Jangl am 12.00

Sul nesaf – 10^{fed}

Cynhelir Oedfa Cymorth Cristnogol Undebol yn yr Eglwys am 11.00. Ni fydd Ysgol Sul heddiw.

Tanyfron a Nantglyn

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Mr Alun Jones yn arwain oedfa i'r daith yn Nhanyfron am 2.00.

Sul nesaf – 10^{fed}

Bydd Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn cael ei gynnal yn Nantglyn am 2.00.

Cyhoeddiadau

Saron a Pheniel

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.

Sul nesaf – 10^{fed}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Saron am 2.00 a bydd yr Ysgol Sul yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

Henllan a Groes

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Henllan am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes a Henllan am 10.00.

Sul nesaf – 10^{fed}

Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol yn Groes am 10.00 ac Ysgol Sul am 2.00. Cynhelir Gwasanaeth Cymorth Cristnogol Undebol yn Eglwys Henllan am 11.00, a bydd yr Ysgol Sul am 2.00.

Llanefydd a Chefn Berain

Sul yma – 3^{ydd}

Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yng Nghefn Berain am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.

Sul nesaf – 10^{fed}

Cynhelir Gwasanaeth Undebol Cymorth Cristnogol yn Eglwys Llanefydd am 9.30. Bydd cyfle i brynu nwyddau Masnach Deg ar ddiwedd y gwasanaeth.

* Casgliad Sasiwn Genhadol y Chwiorydd *

Mae llawer o'r chwiorydd yn gweithio'n ddiwyd iawn yn eu heglwysi, yn yr Ofalaeth ac yn yr Henaduriaeth, a phob blwyddyn, fe wneir casgliad arbennig sy'n gwneud hi'n bosibl i Adran Chwiorydd Eglwys Bresbyteriaid Cymru gyfrannu'n hael at waith Gweithwyr y Bwrdd Bywyd a Thystiolaeth a phrosiectau gartref a thramor. Mae'n dda cael adrodd bod chwiorydd Eglwysi Bro Aled wedi cyfrannu £540.00 tuag at y casgliad arbennig hwn eleni. Diolch i chi am eich haelioni.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.